

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Talylychau, nos Fawrth 5 Hydref 2021, am 7.30 pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Marged Bowen (Cadeirydd), Janine Roberts, Steve Haines, John Williams a'r Clerc. Ymddiheuriadau: Rhys Williams, Pauline George, Eifion Roberts, y Cyngorydd Sir Joseph Davies.

Roedd dau aelod o'r cyhoedd hefyd yn bresennol.

Ni nodwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion sy'n codi.

Y Cae Cymunedol. Oherwydd y dirywiad, ac am resymau diogelwch, cytunwyd y byddai'r Pagoda a'r holl offer chwarae yn cael eu datgymalu a'u llosgi ar y safle. Byddai hyn yn cael ei wneud gan yr aelodau.

Cytunwyd i edrych a oedd yna unrhyw grantiau ar gael i blannu coed helyg yn ardal wlyb y cae. I'w drafod eto yn y cyfarfod nesaf.

Yr Hen Onnen. Yn dilyn yr ateb gan y Cyngor a ddaeth i law fis diwethaf, cafwyd neges e-bost gan Angie Hastilow yn dweud ei bod wedi siarad â Swyddog Diogelwch Coed Cyngor Sir Caerfyrddin, ac wedi cael yr un ateb â'r Cyngor, sef ei fod wedi dod i weld yr Onnen ym mis Awst ac wedi cadarnhau ei bod yn gwneud yn dda. Byddai'n dychwelyd eto fis nesaf i'w gwirio eto.

Diffibrilwyr. Yn dilyn sgwrs â Chyngor Cymuned Maenordeilo a Salem, cytunwyd i holi a oedd gan yr unigolyn a oedd yn gwirio'r diffibrilwyr hyn unrhyw gymwysterau. Rhoddwyd hefyd enwau cyswllt ar gyfer cael ategolion newydd yn ôl y gofyn.

Is-gadeirydd. Cytunwyd i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

Y cyfriflenni banc diweddaraf a cheisiadau am dâl. Balans y cyfrif ar 21.09.2021 oedd £7,711.29.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc: £177.23; CTHEM: £44.40; Cwmni Cyfieithu Trywydd: £43.99; M & J Maintenance, Torri Glaswellt y Fynwent ym mis Medi: £600.00.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Roedd llythyr wedi dod i law gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwrwr Ifanc Sir Gaerfyrddin yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn ystyried rhoi cymorth ariannol. Ar ôl cael trafodaeth, cytunwyd i roi £25.00 yr un i'r clybiau lleol canlynol: C.Ff.I. Dyffryn Cothi, C.Ff.I. Llandeilo, C.Ff.I. Llanfynydd, a C.Ff.I. Llangadog.

Cynllunio: Cais PL/02707. Dymchwel estyniadau ar yr ochr a rhoi estyniad ffrâm dderw un llawr yn eu lle, ac ychwanegu cyplau a tho ffrâm dderw at yr estyniad presennol – Brocyn, Talylychau, Llandeilo, SA19 7AZ. Dim gwrthwynebiadau.

Unrhyw faterion eraill.

Roedd hysbysiadau ynghylch swydd Clerc y Fynwent/Claddedigaethau a'r angen i gyfethol Cyngorydd Cymuned wedi cael eu rhoi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan. Dylai unrhyw un a oedd â diddordeb ysgrifennu at y Clerc erbyn 11 Hydref 2021. Bydd y Cadeirydd yn galw Cyfarfod Eithriadol yn ystod yr wythnos nesaf.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i'r Adran Priffyrdd fod y golau stryd y tu allan i Rhoseinon wedi'i orchuddio gan goed. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Clerc ymholi unwaith eto ynglŷn â llinellau gwyn ar y darn o'r ffordd rhwng mynedfa Fferm Bryngwyn a Fferm Abernaint.

Daeth y cyfarfod i ben tua 8.30 p.m. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol nos Fawrth 2 Tachwedd, am 7.30 p.m.